Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**£500m yn rhoi hwb i raglen fuddsoddi newydd**
**Heddiw cyhoeddodd Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru Jane Hutt y bydd dau gynllun cyllid arloesol newydd yn arwain at fuddsoddiad ychwanegol o hanner biliwn o bunnoedd mewn seilwaith.**
**Dydd Mawrth 04 Rhagfyr 2012**
**Dywedodd Jane Hutt:**
"Mae'r mentrau a gyhoeddais heddiw yn dangos ein bod yn dal yn benderfynol o fuddsoddi mewn seilwaith ledled Cymru, er gwaethaf y toriadau a osodwyd arnom gan Lywodraeth y DU.
"Drwy ychwanegu'r mentrau a gyhoeddais heddiw at y £220m o fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol a nodir yn y Gyllideb Derfynol, rydym yn neilltuo bron tri chwarter biliwn o bunnoedd i economi Cymru a'r gwasanaethau cyhoeddus.
"Bydd y ddwy fenter hyn yn flaenoriaeth mewn rhaglen o fuddsoddi di-ddifidend, sy'n cefnogi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, yr ydym wrthi'n ei ddatblygu.
"Nid yn unig y bydd y buddsoddiad hwn mewn seilwaith yn ein galluogi i barhau i ddarparu'r ysgolion gorau, yr ysbytai gorau a'r ffyrdd gorau, ond bydd hefyd yn cefnogi'r diwydiant adeiladu ac yn darparu swyddi y mae eu mawr angen. Rydym fel Llywodraeth yn parhau i gyflawni yn ystod y cyfnodau mwyaf anodd."
Yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14, cyhoeddodd Jane Hutt y byddai'n defnyddio dull o fuddsoddi di-ddifidend er mwyn buddsoddi tua £300m yn adrannau 5 a 6 o'r A465.
Hefyd, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai'n ymestyn Menter Fenthyca Llywodraeth Leol, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, i gynnwys Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, a fyddai'n dwyn buddsoddiad gwerth tua £200m yn ei flaen.
Wrth siarad am y ddau gynllun cyllid arloesol newydd dywedodd y Gweinidog:
"Byddwn yn buddsoddi tua £200m yn Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif rhwng 2014-15 a 2016-17 drwy ymestyn y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol. Mae hyn yn golygu y byddwn yn cyflwyno'r Rhaglen yn llawn erbyn 2018-19, ddwy flynedd ynghynt na'r disgwyl.
"Ar yr un pryd byddwn yn defnyddio dull o fuddsoddi di-ddifidend er mwyn buddsoddi tua £300m yn adrannau 5 a 6 o'r A465. Mae hyn yn golygu y byddwn wedi darparu ffordd ddeuol lawn cyn 2020. Drwy ddefnyddio rhaglen o fuddsoddi di-ddifidend byddwn yn sicrhau bod y buddsoddiad yn denu cyllid sector preifat cystadleuol ac arbenigedd, tra'n trosglwyddo risg."

Mae £11.5m o gyllid gan Gyngor Adnewyddu'r Economi a gyhoeddwyd ym mis Ionawr gan y Gweinidog Cyllid wedi'i ddefnyddio ar wahanol gynlluniau:

- £1m ar gyfer gwelliannau i Gylchfan Abercynon ar yr A470 er mwyn lleihau tagfeydd yn ystod oriau brig
- £3.5m ar gyfer gwelliannau i'r rhan o'r A470 rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes
- £1.5m ar gyfer gwaith ar ran Gelligemlyn o'r A470
- £2.5m ar gyfer gwaith i roi wyneb newydd ar y ffordd ar y rhan o'r A55 rhwng Cylchfan Puffin a Phenmaenbach.
- Nifer o ddyraniadau llai o faint sy'n gwneud cyfanswm o £3m ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau gwella ffyrdd a phriffyrdd eraill.